

CEFNOGAETH I BOBL IFANC AWTISTIG YN COLEG GWENT

Trosolwg byr o'r cymorth a ddarparwn



Mae Coleg Gwent yn goleg sy'n ymwybodol o awtistiaeth



Coleg ag Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth

Mae dros 22 aelod o staff ar hyn o bryd wedi cwblhau Tystysgrif Ôl-raddedig mewn AAA/ADY (Awtistiaeth) gyda mwy o staff yn astudio gyda'r nod o ennill cymwysterau. Rhoddir hyfforddiant Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig hefyd i staff cymorth.

Mae Coleg Gwent hefyd wedi penodi Hyfforddwr Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig i helpu i ddarparu gwasanaeth pwrpasol ar gyfer y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Wrth wneud cais am gwrs yn Coleg Gwent, gofynnwn i chi nodi ar eich cais os oes gennych awtistiaeth neu nodweddion awtistig a rhowch gymaint o fanylion â phosibl. Trwy wneud hyn byddwch wedyn yn derbyn ffurflen Helpwch Ni i'ch Helpu trwy e-bost. Llenwch y ffurflen hon a rhowch fanylion ar sut allwn eich cefnogi.

Pontio

Mae pontio mor bwysig i bobl awtistig. Mae pontio yn Coleg Gwent yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae hyn yn golygu y gall pontio ddigwydd mewn sesiynau dosbarth, grŵp neu unigol. Trefnir Pontio Gwell gan Swyddogion Pontio ac Adolygu (TROs) y campws.

Mae dros 325 o bobl ifanc wedi datgan wrth ein tîm eu bod yn awtistig neu fod ganddynt nodweddion awtistig a'u bod wedi'u cefnogi, ac yn cael eu cefnogi, gan ddefnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



Ein Campysau



Ein Campysau



Campws
Dinas
Casnewydd



Parth
Dysgu
Torfaen



Campws
Crosskeys



Parth Dysgu
Blaenau
Gwent



Campws
Brynbuga

Staff y Campws



Staff y Campws

Mae darlithwyr yn defnyddio arfer gynhwysol yn yr ystafell ddosbarth i fodloni anghenion dysgu pob dysgwr. Gall pob unigolyn ifanc hefyd fanteisio ar ystod eang o gymorth yn y coleg.

Os oes angen cymorth ychwanegol, mae gan bob campws dîm anghenion dysgu ychwanegol (ADY), sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ein dysgwyr. Dyma eglurhad o bob rôl:

ALSCo - Cydlynnydd Cymorth Dysgu Ychwanegol

Y Cydlynnydd Cymorth Dysgu Ychwanegol yw'r unigolyn sy'n cymryd cyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros bob dysgwr ag ADY. Maent yn gweithio'n agos gyda'r dysgwyr, staff, rhieni ac asiantaethau allanol.

TRO - Swyddog Pontio ac Adolygu

Rôl y Swyddog Pontio ac Adolygu yw galluogi dysgwyr i symud yn esmwyth o'r ysgol i'r coleg.

Gweinyddwr ADY

Mae'r gweinyddwr ADY yn cyfathrebu ag asiantaethau allanol, dysgwyr a theulu i gasglu gwybodaeth i ddysgwyr neu drefnu cyfarfodydd.

Staff Traws Campws



Staff Traws Campws

Mae'r aelodau hyn o staff yn gweithio gyda'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dysgwyr ar bob campws. Dyma eglurhad o bob rôl:

Rheolwr ADY

Mae'r rheolwr ADY yn rheoli'r Tîm ADY cyfan i'w cefnogi yn eu rolau.

Anogwr Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD).


Rôl yr Hyfforddwr ASD yw cefnogi dysgwyr ag Awtistiaeth. Maent yn gweithio ar draws pob un o'r campysau ac yn cefnogi pob dysgwr ASD. Maent yn arbenigwyr ASD sydd â thechnegau a gwybodaeth arbenigol i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd pellach.

Anogwr Technoleg Gynorthwyol

Rôl yr Anogwr Technoleg Gynorthwyol yw cynorthwyo dysgwyr a staff i ddarganfod pa dechnoleg gynorthwyol fyddai'n helpu'r dysgwr a'i anawsterau orau. Maent yn gweithio ar draws pob campws ac mae ganddynt wybodaeth arbenigol ynghylch technoleg.

Cymorth Dysgu

ULP – Darpariaeth Dysgu Cyffredinol



Darpariaeth Dysgu Cyffredinol yw'r gefnogaeth a gynigir i bob dysgwr yn Coleg Gwent. Mae hyn yn cynnwys:

- Cefnogaeth tiwtor gan gynnwys Tiwtor Personol
- Tiwtoriaid Sgiliau ar gyfer Mathemateg a Saesneg
- Hyb Cymorth - ar gyfer cymorth y tu allan i ddsbarthiadau
- Gwasanaethau i Fyfrwyr - cymorth ariannol, tocynnau bws etc
- Anogwr Technoleg Gynorthwyol
- Trefniadau mynediad i arholiadau (EAA)
- Gwasanaethau llyfrgell - cymorth gyda sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn ogystal â sgiliau astudio i ddeall aseiniadau, chwilio am wybodaeth a bodloni terfynau amser.

ALP - Darpariaeth Dysgu Ychwanegol



Mae darpariaeth dysgu ychwanegol yn ychwanegol i'r cymorth a ddarperir yn safonol i bob myfyriwr, neu'n wahanol iddo. Yn Coleg Gwent mae hyn yn cynnwys darparu Cynorthwywyr Cymorth Ychwanegol (ASA).

Maent yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi dysgwyr unigol, gan gymryd amser i ddod i'ch adnabod, i ddeall beth sy'n bwysig i chi a'r ffordd orau i'ch cefnogi.

Mae gennym hefyd
Anogwr Anhwylder
ar y Sbectrwm
Awtistig ar gael i
gefnogi myfyrwyr.

